

Myfyrdod, gweddi ac emyn ar gyfer Gŵyl y Diolchgarwch
gan Carwyn Sidall

Salm 8

Diolch am Arglwydd byw, sydd gyda phob un
ohonom drwy gyfrwng ei creadigaeth, ei ysbryd a'i bobl,
a chyda'i holl blant ledled y byd, yn cydgerdded â ni. Onid yw
hynny'n ardderchog!

***'Pan edrychaf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd, y lloer a'r sêr, a
roddaist yn eu lle, beth yw dyn, iti ei gofio, a'r teulu dynol, iti ofalu
amdanaf.***

Yn aml iawn, byddwn yn rhyfeddu at ddoniau pobl, ac wrth ystyried
gallu a darganfyddiadau byd gwyddoniaeth, technoleg a sawl maes
arall yn ystod y degawdau diwethaf, ni allwn lai na rhyfeddu. Ond
wrth rhyfeddu at allu dynoliaeth, y peryg yw credu mai ni sy'n bwysig,
mai ni sydd yn y canol.

Profiad anhygoel yw sefyll y tu allan ar noson glir ac edrych i fynnu i'r
awyr a syllu ar y sêr. Miliynau ohonynt,
a phob un mor berffaith. Wrth wneud hynny, ni allwn lai na sylweddo
li unwaith eto mor fychan ydym mewn difri yng nghanol creadigaeth
Duw.

Ti Deyrn y bydysawd, arlunydd y wawjr, y
rheolwr pelydrau, amserwr pob awr, ond ôl
ffynhonnell pob ynni, a bywd ei barhad:
tydi, er rhyfeddod, a'n ceraist felTad

Gweddi Diolchgarwch

Ar wyl cynhaeaf, dirion Dad,
Ein moliant rown i Ti,
Darperaist eto inni'n hael;
Derbynia'n diolch ni.

Ond mwy yw'n diolch, Arglwydd Iôr,
Nag am dy roddion rhad,
Am gartref, bro, ac iechyd da,
Mawr yw ein braint, o Dad.

I lawer gwlad, y foment hon,
Llifogydd yw eu rhan;
Cyflwynwn weddi drostynt hwy,
A'th deulu ym mhob man.

I eraill, terfysg sydd i'w weld,
O'u hamgylch pob ryw awr;
Ein gweddi yw: tangnefedd gwir
Dros wyneb daear lawr.

Gofidio gwnâi sawl ffermwr tlawd,
Daeth sychdwr mawr i'w gwlad;;
Deisyfwn lwyddiant ar eu gwaith,
A'th fendith di, o Dad.

I'r rhai digartref ar y stryd,
Heb gwmni neb na tho,
Erfyniwn arnat, gyfaill cu
O! Cadwa hwy'n dy go.

Wrth gofio'th deulu dros y byd,
Ein breintiau ni sydd fawr;
Ein diolchgarwch derbyn di,
A'n cri dros ddaear lawr.

EMYN DIOLCHGARWCH

Dduw'r creawdwr, deawn eto
gyda diolch yn ein cân;
Ti fu eto'n rhannu'th rhoddion
gyda ni yng Nghymru lân.
Gwelsom gaeau gleision, hyfryd,
gwelsom feysydd yd a grawn,
gwelsom waith Dy ddwylo graslon
yn rhoi'r ysguboriau llawn.

Wrth i'n droedio llwybrau Cymru,
gwelwn glytwaith mawr y creu;
môr a mynydd, cwm ac afon-
popeth gennyt wedi'i wau.
Gwelwn flodau megis perlau,
gwelwn goed, yn fawr a mân,
hwythau'n cynnig cartref siriol
i bob 'deryn llon ei gân.

Unwn ninnau yn eu moliant
wrth Dy weld ym mhopeth byw.
Ti yw'r artist, Ti yw'r crëwr,
Ti yw'r rhoddwr, Ti yw'n Duw.
Wrth wynebu blwyddyn eto,
rho Dy fendith ar ein gwlad.
Heddiw, derbyn Di ein diolch
am Dy roddion, nefol Dad.

Carwyn Siddall